

# WISERD – Strategaeth a Chanllaw ar Ymgysylltu'n Effeithiol



Wales Institute of Social & Economic Research, Data & Methods  
Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru

## WISERD – Strategaeth a Chanllaw ar Ymgysylltu’n Effeithiol

|     | CYNNWYS  | Tudalen |
|-----|--|---------|
| 1.0 | CYFLWYNIAD   | 2       |
| 2.0 | WISERD – CYD-DESTUN/TROSOLWG   | 3       |
| 3.0 | NODAU AC EGWYDDORION STRATEGOL   | 6       |
|     | 3.1 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth   | 7       |
|     | 3.2 Iaith  |         |
|     | 3.3 Cyfrinachedd/cadw’r rhai sy’n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil yn ddiennw | 8       |
|     | 3.4 Cydnabod Partneriaid   |         |
| 4.0 | ‘YMGYSYLLTU’   | 8       |
|     | 4.1 Cynllunio Gwaith Ymgysylltu  | 9       |
|     | 4.2 Ymgysylltu Polisi  | 10      |
|     | 4.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid   | 13      |
|     | 4.4 Ymgysylltu â’r Gymuned Academaidd Ehangach                               |         |
|     | 4.5 Marchnata, Cyhoedduswydd ac Ymgysylltu Rhithwir/ar y we                  | 14      |
|     | 4.6 Materion a heriau  | 15      |
| 5.0 | ARFER EFFEITHIOL   | 15      |
|     | 5.1 ‘Perchnogaeth’   |         |
|     | 5.2 Sicrhau bod Ymgysylltu Ymchwil yn Broses Ddwyffordd                      |         |
|     | 5.3 Effaith  | 16      |
|     | 5.4 Monitro  | 17      |
|     | 5.5 Researchfish ©   |         |
|     | 5.6 Rhwydweithiau Ymchwil  | 18      |
|     | 5.7 Grŵp Defnyddwyr Ymchwil  | 19      |
| 6.0 | CYDNABYDDIAETH   | 20      |
| 7.0 | GWYBODAETH DDEFNYDDIOL   | 21      |
|     | ATODIAD A – Geirfa – Mathau o Weithgareddau Ymgysylltu                       | 22      |
|     | ATODIAD B – Ymgysylltu Academaidd – Cynadledau                               | 23      |
|     | ATODIAD C – Deunydd Darllen ar Faterion a Heriau yn ymwneud ag Ymgysylltu    | 24      |

### 1.0 CYFLWYNIAD

Diben y ddogfen hon yw nodi'r ffordd y mae WISERD yn mynd ati i ymgysylltu drwy roi manylion am nodau, egwyddorion, dulliau a chymau gweithredu arfaethedig (y 'Strategaeth') – yn ogystal â chrynhof gwybodaeth sy'n berthnasol er mwyn cyflawni'r nodau hyn (y 'Canllaw').

## 2.0 WISERD – CYD-DESTUN/TROSOLWG

Sefydlwyd Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) yn 2008. Menter ar y cyd yw'r Sefydliad rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe. Prif nodau WISERD yw:

- Datblygu ansawdd a maint y gwaith ymchwil gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig drwy brosiectau ymchwil a ariennir yn allanol
- Hyrwyddo gweithgareddau ymchwil ar y cyd ar draws y prifysgolion sy'n cymryd rhan ac ar draws disgyblaethau a sectorau
- Datblygu seilwaith ymchwil gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru
- Cryfhau effaith gwaith ymchwil gwyddorau cymdeithasol ar ddatblygiad polisi yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector drwy ganolbwyntio ar gyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu
- Llywio a chryfhau arfer proffesiynol drwy rannu gwybodaeth ymchwil gydag arbenigwyr ar draws ystod o feysydd – gan gynnwys gwaith cymdeithasol, gofal cymdeithasol, gofal iechyd, addysg a'r trydydd sector.

O ran ei waith ymchwil, gall WISERD ddangos arbenigedd o ran:

- methodoleg ansoddol, meintiol a chymysg
- gwybodaeth am setiau data yn ymwneud â Chymru a'u dadansoddi
- hanes o wneud cynigion llwyddiannus am grantiau ymchwil

Caiff WISERD ei gydlyn o ganolfan ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae gan y Sefydliad ymchwilwyr ac uwch academyddion cyswllt ym mhob un o'r sefydliadau partner, ac mae'n ceisio ymgysylltu â'r gymuned academiaidd ehangach, defnyddwyr ymchwil a rhanddeiliaid drwy ei weithgareddau, ei rwydweithiau a'i gynlluniau aelodaeth.

Themâu Ymchwil WISERD

Mae gwaith WISERD yn canolbwyntio ar chwe thema:

- a) Cymdeithas Sifil,
- b) Addysg,
- c) Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol,
- ch) Anghydraddoldeb Economaidd a Chymdeithasol,
- d) Ardaloedd Lleol,
- dd) Data a Dulliau

(a). Cymdeithas Sifil

Fel Canolfan Ymchwil Genedlaethol ddynodedig a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), mae WISERD yn cynnal rhaglen ymchwil pum mlynedd ar waith ymchwil amlddisgyblaeth sy'n berthnasol i bolisi sy'n mynd i'r afael â'r Gymdeithas Sifil yng Nghymru, y Deyrnas Gyfunol ac yn rhyngwladol.

Mae'r rhaglen waith hon wedi'i strwythuro ar sail pedair thema:

1. *Ardal Leol, Cymuned a Chymdeithas Sifil*. Mae'r thema hon yn trafod ad-drefnu ac ail-gyfleu cymdeithas sifil leol yng nghyd-destun newid cymdeithasol ac economaidd cyfoes. Mae'n cynnwys pedwar prosiect ymchwil neu 'becyn gwaith'.

2. *Unigolion, Sefydliadau a Llywodraethu*. Bydd y prosiectau hyn yn defnyddio prismau llywodraethu ar sawl lefel, damcaniaeth neo-sefydliadol a dulliau llunio polisiau cyhoeddus is-wladol i ymchwilio i ddatganoli a'r perthnasau newidiol rhwng unigolion, sefydliadau yn y gymdeithas sifil a'r wladwriaeth.

3. *Cyni Economaidd, Menter Gymdeithasol ac Anghydraddoldeb*. Mae'r thema hon yn trafod y rhyngberthynas rhwng agweddau ar gymdeithas sifil a'r economi mewn cyfnod o gyni drwy archwilio sut mae tueddiadau economaidd yn perthyn i agweddau allweddol ar gymdeithas sifil, gan gynnwys; lefelau mentrau cymdeithasol, aelodaeth o undebau llafur a chymryd rhan mewn bywyd cysylltiadol, mynediad i wasanaethau cymunedol, cydlyniant cymdeithasol a lles ar raddfa leol.

4. *Cenedlaeth, Cwrs Bywyd a Chyfranogiad Cymdeithasol*. Bydd y thema hon yn trafod sut mae cenedlaethau gwahanol yn trosglwyddo gwerthoedd a chredoau a sut mae cenedlaethau gwahanol yn trosglwyddo ffurfiau gwahanol ar gyfalaf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd a sut mae'r rhain yn ymwneud â chymdeithas sifil. Wrth wneud hynny, bydd yn archwilio amrywiadau o ran cyfranogiad cymdeithasol a chanfyddiadau o fewn cenedlaethau a rhyngddynt.

#### (b). Addysg

Nod gwaith ymchwil Addysg WISERD yw newid tirlun ymchwil addysg yng Nghymru er mwyn rhoi Cymru ar flaen y gad o ran datblygiadau adeiladu capasiti ymchwil yn y Deyrnas Gyfunol a'r tu hwnt. Mae Addysg WISERD yn cynnal amrywiaeth o brosiectau sydd wedi archwilio cynnydd a phrofiadau plant o'r blynyddoedd cynnar i'r berthynas rhwng addysg, lleoliadau a chyfeiriadedd yn eu bywydau fel oedolion. Mae'r arianwyr yn cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Llywodraeth Cymru, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ac Ymddiriedolaeth Sutton.

Rydym yn defnyddio ystod amrywiol o ddulliau ac yn arbenigo mewn gwaith ymchwil hydredol sy'n cynnwys archwilio data o amryw astudiaethau o garfanau yn y Deyrnas Gyfunol yn ogystal â chynnal ein hastudiaethau aml-garfan ein hunain o blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Prif nodau'r Rhaglen Waith yw:

- gwella'r capasiti i gynnal gwaith ymchwil addysg o safon yn y sector addysg uwch yng Nghymru;
- cynnal gweithgareddau ymchwil sydd wedi'u cynllunio i wella ansawdd dysgu a safonau addysgu ac addysg i athrawon yng Nghymru;

- cynnal gweithgareddau trawsfudol i gynyddu llythrennedd ymchwil addysgwyr athrawon, ymarferwyr, llunwyr polisi a rhanddeiliaid eraill;
- Rhoi seilwaith ar waith a fydd yn sicrhau y gellir cynnal y capasiti a'r gweithgareddau hyn.

Mae Addysg WISERD wedi'i gyflunio yn bedair cyfres ryngberthynol o weithgareddau:

1. Gan adeiladu ar y buddsoddiad a'r arbenigedd sydd eisoes wedi'u datblygu yn WISERD, bydd Gwella Seilwaith Ymchwil yn gosod y sylfeini ar gyfer dyfodol ymchwil cadarn a chynaliadwy yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys: gwella pa mor ymarferol yw setiau data sydd eisoes yn bodoli, drwy integreiddio data a gwella mynediad; a sefydlu astudiaethau hydredol o wahanol garfanau oedran a sefydliadau. Byddant yn gweithio yn ardaloedd y tair canolfan addysg gychwynnol i athrawon ac yn cynrychioli amrywiaeth economaidd-gymdeithasol, diwylliannol a daearyddol cymdeithas Cymru.
2. Bydd y seilwaith ymchwil yn creu data cadarn ar gyfer cyfres o Brosiectau Ymchwil. Rydym wedi amlinellu rhai prosiectau dangosol yn ymwneud â thlodi, cynnydd ac ymarfer profesiynol a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnodau cynnar. Ceisir am arian allanol ar gyfer prosiectau ymchwil pellach i sicrhau cynaliadwyedd.
3. Y prosiectau ymchwil fydd un o'r prif ddulliau ar gyfer Meithrin Capasiti Ymchwilwyr ledled Cymru drwy roi cyfleoedd i ymchwilwyr ôl-raddedig yng Nghanolfan Hyfforddiant Doethurol Cymru y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a galluogi ymchwilwyr llai profiadol i wneud ymchwil ochr yn ochr â rhai â mwy o brofiad ac arbenigedd.
4. Bydd y Rhaglen hefyd yn hwyluso ystod o Weithgareddau Trawsfudol a fydd yn cynyddu llythrennedd ymchwil ymarferwyr addysgol, llunwyr polisi a staff prifysgol sy'n ymwneud ag addysg gychwynnol a pharhaus i athrawon nad ydynt yn 'ymchwil weithgar'.

#### (c). Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol (HWSC)

Mae WISERD yn cynnal cyfres o brosiectau ar ofal cymdeithasol, iechyd a lles.<sup>1</sup> Mae gwaith diweddar Prosiectau Ymchwil Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys: Gwella profiad dementia a gwella bywyd gweithgar: byw'n dda gyda dementia, a Newid o ran Dwysedd Safleoedd Gwerthu Alcohol a Niwed cysylltiedig ag Alcohol i Iechyd y Boblogaeth. Mae'r astudiaeth sy'n ymwneud â dementia yn astudiaeth carfan hydredol sy'n defnyddio cymysgedd o ddulliau ac sy'n canolbwyntio ar y potensial i fyw'n dda gyda dementia o safbwynt pobl sydd â dementia a'u prif ofalwyr. Mae'r astudiaeth ar alcohol yn ymwneud â datblygu dull newydd o fesur dwysedd safleoedd gwerthu alcohol yng Nghymru gan ddefnyddio dulliau System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS).

#### (ch). Anghydraddoldeb Economaidd a Chymdeithasol

Ymysg yr enghreifftiau o weithgareddau ymchwil presennol/diweddar mae: Goblygiadau Newidiadau yn y Sector Cyhoeddus i'r Farchnad Lafur, a Rhwydwaith Ymchwil Tai Cymru. Roedd y gweithgaredd ymchwil ar y Farchnad Lafur yn ymchwilio i gyflogau cymharol yn y sector cyhoeddus ar draws dosbarthiad enillion, ansawdd swyddi yn y sector cyhoeddus, ac effaith newidiadau i gyflogau a

<sup>1</sup> Mae rhai prosiectau ar y cyd â Sefydliad Cymdeithas, Iechyd a Lles Caerdydd (CISHeW)

chyflogaeth yn y sector cyhoeddus ar grwpiau cydraddoldeb. Mae'r gwaith ar Rwydwaith Ymchwil Tai Cymru yn dwyn ynghyd ymchwilwyr a sefydliadau ymchwil yng Nghymru ym maes tai. Mae ymchwilwyr yn archwilio materion yn ymwneud â thair drwy amrywiaeth o ddisgyblaethau yn amrywio o wyddorau cymdeithasol ac economeg i bensaerniaeth ac iechyd.

#### (d). Ardaloedd Lleol

Mae'r gwaith presennol yn cynnwys Cefn Gwlad Byd-eang: Newid Gwledig a Datblygiad Globaleiddio (dan arweiniad yr Athro M. Woods). Ariennir yr astudiaeth hon gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd a'i nod yw gwella dealltwriaeth o waith ac effaith globaleiddio mewn ardaloedd gwledig drwy ddatblygu a chymhwyso dulliau cysyniadol a methodolegol newydd. Bydd yn datblygu safbwynt integredig drwy ddefnyddio gwaith dadansoddi perthynol (ac yn enwedig drwy ddulliau 'damcaniaeth casgliad' a 'gwrthdopograffi') i ganolbwyntio ar yr union ffordd y caiff ardaloedd gwledig eu 'hail-greu' drwy ymwneud â phrosesau globaleiddio, archwilio effaith gyfryngol cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol a'r cyfle am ymyriadau lleol.

#### (dd). Data a Dulliau

Mae WISERD yn ymwneud â chyfres o brosiectau sy'n canolbwyntio ar wneud y mwyaf o ddefnydd o ddata a hyrwyddo arloesedd methodolegol. Mae'r rhain yn cynnwys Porth Data WISERD a Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC Cymru). Mae'r Ganolfan Ymchwil hon yn rhan o'r Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol (ADRN) a grëwyd i sicrhau bod y mwyafrif helaeth o ddata gweinyddol a gesglir gan wahanol asiantaethau ac adrannau o'r llywodraeth ar gael ar gyfer gwaith ymchwil academaidd. Mae'r Ganolfan yn darparu cymorth a chyfleusterau i ymchwilwyr gynnal gwaith dadansoddi gan ddefnyddio'r data hwn ym mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe. Meddalwedd ar y we yw'r Porth Data a fydd yn gwella gallu'r ymchwilydd i ddarganfod data ymchwil economaidd-gymdeithasol, gyda'r nod o annog aildefnyddio ac ail-amcanu data sydd eisoes yn bodoli. Mae wedi'i gynllunio i roi mynediad i feta-data cyfoethog ar amrywiaeth eang o ffynonellau data - gan gynnwys data cyfweld ansoddol a gasglwyd fel rhan o ymchwil WISERD - a galluogi ymchwilwyr i ddadansoddi'r meta-data gan ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau tablaidd, graffigol a mapio.

### 3.0 YMGYSYLLTU: NODAU AC EGWYDDORION STRATEGOL

Gellir crynhoi nodau ac egwyddorion arweiniol gweithgareddau ymgysylltu WISERD fel a ganlyn:

- Rhannu gwybodaeth a sgwrs ym mhob cam o'r broses ymchwil
- Hyrwyddo dealltwriaeth
- Ceisio canfod atebion effeithiol i faterion cymdeithasol/sicrhau gwell cymdeithas
- Cynnal arfer moesol a chysondeb o ran polisiau cydraddoldeb
- Rhagoriaeth mewn ymchwil
- Cydymffurfio â Chynghorau Ymchwil y Deyrnas Gyfunol (RCUK)
- Llunio cynigion am arian ymchwil

Yn ogystal, rydym yn ystyriol o'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru (NPPEW).

1. Cynllunio ymgysylltu yn effeithiol i wneud gwahaniaeth
2. Annog a galluogi'r rhai yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dewis.
3. Cynllunio a chyflawni gwaith ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol
4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol
5. Pan fo'n briodol,<sup>2</sup> bydd y wybodaeth a ddarparwyd yn rhydd o jargon, yn briodol ac yn ddealladwy
6. Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan. Bydd rhwystrau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl yn cael eu nodi a'u datrys.
7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol
8. Rhoddir yr adnoddau a'r cymorth cywir er mwyn i ymgysylltu fod yn effeithiol
9. Bydd pobl yn cael gwybod am effaith eu cyfraniad
10. Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses ymgysylltu

### 3.1 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru yn ceisio ymgysylltu â defnyddwyr ymchwil a chynulleidfaoedd eraill yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal, mae WISERD hefyd yn ceisio cynnal polisiâu cydraddoldeb ac amrywiaeth ei sefydliadau cyfansoddol. Mae'r rhain yn darparu canllaw ar hyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas ag ystod amrywiol o weithgareddau ymgysylltu drwy gynllunio effeithiol ac ystyried ffactorau fel pa mor hygyrch yw lleoliadau a darparu gwybodaeth mewn fformatau gwahanol. Mae'r ystyriaethau hyn yn gyson ag Egwyddor 6 yr Egwyddorion Cenedlaethol.<sup>3</sup>

Dolenni defnyddiol:

- Polisi Cydraddoldeb Prifysgol Aberystwyth <http://www.aber.ac.uk/cy/equality/>
- Polisi Cydraddoldeb Prifysgol Bangor <http://www.bangor.ac.uk/hr/equalitydiversity/index.php.cy>
- Polisi Cydraddoldeb Prifysgol Caerdydd <http://www.cardiff.ac.uk/govrn/cocom/equalityanddiversity/>
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol <http://www.equalityhumanrights.com/>
- Polisiâu Cydraddoldeb Prifysgol Abertawe <http://www.swansea.ac.uk/personnel/equal-opportunities/>
- Polisiâu Cydraddoldeb Prifysgol De Cymru [http://hr.southwales.ac.uk/hr/advice\\_and\\_guidance/](http://hr.southwales.ac.uk/hr/advice_and_guidance/)

### 3.2 Iaith

Er bod gwaith academaidd, o raid, yn dibynnu ar dermau technegol gan ymwneud â damcaniaeth gymdeithasol, gan ddilyn Egwyddor 5 yr Egwyddorion Cenedlaethol, bydd gwaith ymgysylltu a

<sup>2</sup> Fel sefydliad ymchwil academaidd blaenllaw, bydd geirfa arbenigol ac ymwneud â damcaniaeth gymdeithasol berthnasol yn rhan o allbwn gwaith ymchwil.

<sup>3</sup> I'w gwneud yn haws i bobl gymryd rhan, fel y gellir canfod a mynd i'r afael â rhwystrau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl.

lledaenu WISERD yn cael ei deilwra i gynulleidfaoedd gwahanol. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn ceisio osgoi defnyddio jargon diangen pan fyddwn yn lledaenu gwybodaeth i ddefnyddwyr nad ydynt yn academyddion.

### 3.3 Cyfrinachedd/cadw'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil yn ddiennw

Mae nifer o brosiectau ymchwil yn dibynnu ar gael unigolion a sefydliadau i gymryd rhan. Trafodir a chytunir ar eu rôl ar ddechrau prosiectau (neu pryd bynnag y caiff prosiectau eu newid/addasu). Dylai hyn gael ei gynnwys yn y gymeradwyaeth foesegol sydd ei hangen ar gyfer prosiectau WISERD (caiff ei sicrhau gan Bwyllgorau Moeseg perthnasol Sefydliadau Addysg Uwch WISERD). Yn hanfodol, dylai gweithgareddau ymgysylltu gael eu cynllunio a'u cynnal fel nad amherir ar gyfrinachedd unigolion a sefydliadau sy'n cydweithio gan sicrhau eu bod yn aros yn ddiennw fel y cytunwyd.

Dyma enghraifft:

- <https://www.dur.ac.uk/resources/beacon/CCDiscussionPapertemplateCBPRBanksetal7Nov2011.pdf>

### 3.4 Cydnabod Partneriaid

Mewn cyhoeddiadau a ffurfiau eraill lle caiff gwaith ymchwil ei ledaenu, bydd cydweithwyr yn cydnabod y cymorth, y cyfraniad neu'r cydweithio gan bartneriaid a rhanddeiliaid. Yn aml bydd angen nodi hyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod y rhai a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil yn aros yn ddiennw.

## 4.0 'YMGYSYLLTU'

Gellir diffinio ymgysylltu â'r cyhoedd fel a ganlyn:

*Y myrdd o ffyrdd y gellir rhannu gweithgarwch a buddiannau addysg uwch ac ymchwil â'r cyhoedd. Mae ymgysylltu, drwy ddiffiniad, yn broses ddwyffordd, sy'n cynnwys rhyngweithio, a gwranddo, gyda'r nod o greu budd i'r ddwy ochr.<sup>4</sup>*

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'pam ymgysylltu?' mae RCUK yn ateb:

*Mae ymgysylltu gwaith ymchwil â'r cyhoedd yn helpu i rymuso pobl, ehangu agweddau a sicrhau bod gwaith prifysgolion a sefydliadau ymchwil yn berthnasol i gymdeithas a phryderon cymdeithasol ehangach... Y nod yw creu diwylliant lle mae'r gymuned ymchwil yn ystyried ymgysylltu â'r cyhoedd yn weithgaredd pwysig a hanfodol. Drwy sefydlu sgwrs barhaus rhwng y gymuned ymchwil a'r cyhoedd, gall cymdeithas gael budd llawnach o ganlyniadau ymchwil.<sup>5</sup>*

- Gweler hefyd lyfryn gan y RCUK 'What's in it for me?' <http://www.rcuk.ac.uk/RCUK-prod/assets/documents/scisoc/RCUKBenefitsofPE.pdf>

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yn diffinio 'y cyhoedd' fel a ganlyn:

---

<sup>4</sup> [www.publicengagement.ac.uk](http://www.publicengagement.ac.uk)

<sup>5</sup> <http://www.rcuk.ac.uk/pe/>



‘Unigolion a grwpiau nad oes ganddynt berthynas ffurfiol ar hyn o bryd â sefydliadau addysg uwch drwy addysg, ymchwil neu drosglwyddo gwybodaeth.’

Mae nifer o feysydd gwahanol yn cyfrannu at waith ymgysylltu â’r cyhoedd:

- Hysbysu’r cyhoedd am ein gwaith;
- Rhannu ein harbenigedd â chymunedau;
- Gweithredu i ddatblygu cymdeithas lle mae’r genhedlaeth nesaf am ymgysylltu â gwaith ymchwil, addysgu a dysgu cymdeithasol;
- Rhoi cyfleoedd i bobl y tu allan i sefydliadau addysg uwch WISERD gyfrannu eu gwaith ymchwil a’u gwybodaeth at raglenni WISERD;
- Cymryd rhan mewn trafodaethau a sgysiau ehangach am gyfeiriad ein gwaith ymchwil;
- Creu gwybodaeth newydd ar y cyd â chymunedau a grwpiau allanol â diddordeb.

#### 4.1 Cynllunio Gwaith Ymgysylltu

Er mwyn hyrwyddo Egwyddorion 1, 2, 3, 7 ac 8 yr Egwyddorion Cenedlaethol, rydym yn ceisio cadw at y canllawiau canlynol gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar ffactorau i’w hystyried wrth gynllunio gwaith ymgysylltu:<sup>6</sup>

- Bod yn glir pam eich bod yn ymgysylltu â’r cyhoedd, yn eich meddwl chi ac wrth gyfathrebu â darpar gyfranogwyr. Peidiwch â chodi disgwyliadau afrealistig ymysg cyfranogwyr.
- Caniatáu digon o amser i gynllunio gwaith ymgysylltu â’r cyhoedd yn drylwyr, p’un a yw’n ddigwyddiad unigol bychan neu’n rhaglen barhaus.
- Wrth gynllunio eich strategaeth ymgysylltu â’r cyhoedd, ystyried pwy rydych chi’n dymuno ymgysylltu â nhw a pham, eu diddordebau a pham y gallent fod â diddordeb yn eich maes ymchwil. Bydd hyn yn eich helpu i ddewis ffordd addas o fynd ati.
- Ystyriwch yr arddulliau a’r sgiliau cyfathrebu ym maes ymgysylltu â’r cyhoedd yr hoffech chi eu defnyddio. Bydd eich gweithgareddau yn llawer mwy llwyddiannus os byddwch yn gyfforddus yn eu cyflwyno.
- Bydd datblygu amserlen gweithgarwch neu siart Gantt yn eich helpu i reoli gweithgarwch ymgysylltu â’r cyhoedd a nodi rhwystrau posibl.
- Meddyliwch am eich rôl ymgysylltu â’r cyhoedd fel un barhaus. Bydd hyn yn eich galluogi i gysylltu’ch gweithgareddau, meithrin eich arbenigedd a datblygu perthynas â’r grwpiau rydych yn ymgysylltu â nhw. Gwnewch hyn yn y cyfnod gwneud cais ymchwil, yn ystod y gwaith ymchwil, yn ogystal ag yn ystod eich gwerthusiad ar ôl y prosiect.
- Dylech gynnwys gwerthusiad ar ddechrau’r rhaglen ymgysylltu â’r cyhoedd. Gwerthuso’r profiad neu’r gweithgaredd yw’r unig ffordd o ddysgu beth sy’n gweithio.
- Rhannwch eich profiadau o ymgysylltu â’r cyhoedd â’ch cydweithwyr. Os yn bosibl,

<sup>6</sup> Mae ymgysylltu, i bob pwrpas, wedi’i gynllunio i wneud gwahaniaeth; Annog a galluogi’r rhai yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dewis; a Chynllunio a chyflawni gwaith ymgysylltu mewn modd amserol a phriodol.

sicrhewch fod eich adroddiadau gwerthuso ar gael yn gyhoeddus fel y gall eraill gael budd o'ch profiadau.

- Sicrhewch eich bod yn neilltuo digon o arian ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd pan fyddwch yn gwneud cais i'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol am arian. Yn llawer rhy aml, mae cynlluniau yn amwys yn ystod y cam gwneud cais ac ni chaiff digon o arian ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau o ansawdd uchel.<sup>7</sup>

Mae gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd WISERD yn seiliedig ar strategaeth ddeuol: 1. Datblygu cyfleoedd "mewnol" i ymgysylltu â'r cyhoedd - a 2. Defnyddio digwyddiadau a sefydliadau allanol mewn ffordd wedi'i thargedu. Mae enghreifftiau o gyfleoedd mewnol yn cynnwys: darlithoedd cyhoeddus; trafodaethau bwrdd crwn; cynadleddau; a gweithdai. Mae enghreifftiau o'r cyfleoedd allanol yn cynnwys Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae angen ystyried ymgysylltu ymchwil mewn cyd-destun rhyngwladol hefyd. Yn benodol, o ran yr Undeb Ewropeaidd [http://ec.europa.eu/transparency/civil\\_society/index\\_en.htm](http://ec.europa.eu/transparency/civil_society/index_en.htm) - yn ogystal â'r Cenhedloedd Unedig <http://www.un.org/en/civilsociety/>

## 4.2 Ymgysylltu Polisi

Mae'r Academi Gwyddorau Cymdeithasol a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn diffinio ymgysylltu fel a ganlyn:<sup>8</sup>

*ymateb i bolisi, arfer neu agendâu cyhoeddus - drwy gadw llygad am ymchwiliadau, adolygiadau ac ymgynghoriadau y mae eu gwybodaeth, safbwynt neu dulliau disgyblaethol yn berthnasol iddynt; cyfrannu cyflwyniadau ac ymatebion iddynt; cyhoeddi adroddiadau a threfnu digwyddiadau ar bynciau perthnasol; cyhoeddi datganiadau i'r wasg, ysgrifennu at y wasg a chyfnodolion ymarferwyr.*

Mae amryw ffyrdd o ymgysylltu â llunwyr polisi. Mae enghreifftiau allweddol o ymgysylltu deddfwriaethol yn cynnwys cyfrannu at adolygiadau polisi trawsbleidiol ac ymddangos fel tystion arbenigol gerbron pwyllgorau seneddol. Bydd ymgysylltu o'r fath yn ymddangos yn y papurau a thrafodion y ddeddfwrfa dan sylw (e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, San Steffan, Senedd yr Alban ac ati). Mae'r cofnod ysgrifenedig hwn o ymgysylltu yn bwysig. Fel y mae Adran 5.4 (isod) ar 'Researchfish' yn egluro, mae'n ffordd o ddangos effaith polisi ac mae'n un maes o ymgysylltu y mae gofyn i brosiectau ymchwil a ariennir gan RCUK adrodd arno.

Mae ymateb i ymgynghoriadau polisi llywodraethau yn ffordd arall y gall ymchwilwyr WISERD lywio polisi. Mae llywodraethau yn aml yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad a ddaeth i law, gan ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o ymgysylltu polisi/cyfrannu at bolisi at ddibenion adrodd. Mae gwneud argymhellion yn ymgynghoriadau llywodraethau yn gyfle pellach i ddylanwadu, gan y gellir eu hymgorffori i bolisi yn y dyfodol.

<sup>7</sup> <http://www.esrc.ac.uk/funding-and-guidance/impact-toolkit/what-how-and-why/public-engagement/guide/index.aspx> <http://www.esrc.ac.uk/funding-and-guidance/impact-toolkit/what-how-and-why/public-engagement/top-tips.aspx>

<sup>8</sup> [http://www.esrc.ac.uk/images/Developing\\_Dialogue\\_tcm8-4628.pdf](http://www.esrc.ac.uk/images/Developing_Dialogue_tcm8-4628.pdf)

Gwefannau defnyddiol (canghennau gweithredol llywodraeth):

- Llywodraeth Cymru <http://llyw.cymru/consultations/?lang=cy>
- Awdurdodau lleol Cymru <http://www.wlga.gov.uk/ymatebion-l-2014>
- Llywodraeth yr Alban <http://www.gov.scot/Consultations/Current>
- Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon <http://www.nidirect.gov.uk/have-your-say-current-consultations>
- Llywodraeth San Steffan [https://www.gov.uk/government/publications?publication\\_filter\\_option=consultations](https://www.gov.uk/government/publications?publication_filter_option=consultations)
- Yr Undeb Ewropeaidd [http://ec.europa.eu/yourvoice/consultations/index\\_en.htm](http://ec.europa.eu/yourvoice/consultations/index_en.htm)

Gwefannau defnyddiol (canghennau deddfwriaethol llywodraeth):

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1534> a <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationListDisplay.aspx>
- Senedd yr Alban <http://www.scottish.parliament.uk/gettinginvolved/current-consultations.aspx>
- Senedd y Deyrnas Gyfunol <http://www.parliament.uk/get-involved/have-your-say/take-part-in-committee-inquiries/> a <http://www.parliament.uk/get-involved/have-your-say/submit-evidence-on-a-bill/>

Mae Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ffordd arall o ymgysylltu o ran polisi. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a diduedd i roi cymorth i Aelodau'r Cynulliad a phwyllgorau o ran cyflawni eu swyddogaethau craffu deddfwriaethol a datblygu polisi. Mae ymuno â'r rhestr ddosbarthu e-bost (drwy gysylltu ag [Ymchwil@Cynulliad.Cymru](mailto:Ymchwil@Cynulliad.Cymru)) yn rhoi diweddariadau/cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu yn y meysydd polisi canlynol: Cynulliad, Llywodraethu a Chyfansoddiad; Cyllidebau a Chyllid; Economi a Thrafnidiaeth; Addysg a Diwylliant, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Ewrop; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Tai, Cyfathrebu a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban,

<http://www.scottish.parliament.uk/abouttheparliament/25888.aspx#SPICe> yw'r sefydliad cyfatebol yn yr Alban. Yn yr un modd, mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn darparu gwasanaethau gwybodaeth ac ymchwil diduedd i Aelodau Seneddol a'u staff <http://www.parliament.uk/commons-library>. Mae grwpiau polisi trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn cynnig ffordd ddefnyddiol o ymgysylltu â llunwyr polisi <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgListOutsideBodies.aspx>

Heblaw am ymgysylltu o ran deddfwriaeth genedlaethol, mae llywodraeth leol hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu o ran polisi (gan gynnwys awdurdodau lleol, dinasodded, dinas-ranbarthau, Awdurdod Llundain Fwyaf ac ati). Gellir gweld manylion ar wefannau'r awdurdodau unigol, yn ogystal â'r sefydliadau cynrychioliadol ym mhob gwlad:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) <http://www.wlga.gov.uk/>
- Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA) <http://www.cosla.gov.uk/>
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Gogledd Iwerddon (NILGA) <http://www.nilga.org/>
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr (LGA) <http://www.local.gov.uk/>

Yn ogystal, mae cyrff y sector cyhoeddus, fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn rhoi cyfleoedd pellach i lywio polisi. Gellir gweld Cyfeirlyfr o'r holl gyrff cyhoeddus nad ydynt wedi'u datganoli yma <https://www.gov.uk/government/organisations>

Gellir gweld dolenni i wefannau cyrff cyhoeddus drwy wefannau'r llywodraethau cenedlaethol:

- Llywodraeth Cymru <http://llyw.cymru>
- Llywodraeth yr Alban <http://www.gov.scot>
- Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon <http://www.nidirect.gov.uk>

Mae'r corff sy'n cynrychioli'r trydydd sector yng Nghymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn ceisio dylanwadu ar bolisi. Mae cydweithio â'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol yn ffordd arall o lywio polisi. Mae blaenoriaethau presennol y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol wedi nodi nifer o feysydd y mae'n ceisio dylanwadu arnynt, gan gynnwys:

- Cyllido priodol
- Gwneud pobl yn ganolog
- Newid yn yr hinsawdd
- Gweithio a sgiliau
- Trechu tlodi
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Y Gymraeg

Gwefan:

<http://www.wcva.org.uk/what-we-do/policy-and-influence?seq.lang=cy-GB>

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol Lloegr yw'r prif gorff ambarél ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol yn Lloegr <https://www.ncvo.org.uk/>

Y corff ambarél ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yn yr Alban yw'r SCVO <http://www.scvo.org.uk/>

Yng Ngogledd Iwerddon, mae NICVA yn darparu gwybodaeth am sefydliadau gwirfoddol gan gynnwys gwasanaethau, hyfforddiant, cyngor ar lywodraethu a chodi arian a lobiö <http://www.nicva.org/>

Yn ogystal, mae nifer o gyrff gwirfoddoli yn y Deyrnas Gyfunol gan gynnwys:

Gogledd Iwerddon – "Volunteer Now" <http://www.volunteernow.co.uk/>

A "Volunteer Scotland" <http://www.volunteerscotland.net/>

Sefydliad defnyddiol arall yw CIVICUS neu'r Gynghrair Fyd-eang ar gyfer Cyfranogiad Dinasyddion, sef cynghrair ryngwladol o aelodau a phartneriaid sy'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau yn lleol, cenedlaethol, rhanbarthol a rhyngwladol, ac sy'n pontio sbectrwm cymdeithas sifil. Mae CIVICUS yn cynnwys y canlynol yn ei diffiniad o gymdeithas sifil: rhwydweithiau a sefydliadau cymdeithas sifil; undebau llafur, rhwydweithiau ffydd; cymdeithasau proffesiynol, sefydliadau datblygu capasiti cyrff anllywodraethol; sefydliadau dyngarol a chyrrff ariannu eraill. Ei gweledigaeth yw: 'gweledigaeth o gymuned fyd-eang o ddinasyddion gweithgar sy'n ymrwymedig i greu mwy na dim ond byd cyfiawn. Mae hyn yn seiliedig ar y gred fod iechyd cymdeithasau yn bodoli mewn cyfrannedd union i'r graddau o gydbwysedd rhwng y wladwriaeth, y sector preifat a chymdeithas sifil'. <http://civicus.org>

#### 4.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Diffiniad cyffredinol o 'rhanddeiliaid' yw 'cyfranogwyr o gymdeithas sydd â diddordeb (neu ran) mewn mater polisi penodol'<sup>9</sup>. Mae hyn yn awgrymu bod yn rhaid bod gan y rhanddeiliaid ymwybyddiaeth o bolisi penodol (neu faes ymchwil) ac, yn hanfodol, ddiddordeb yn ei effaith. Mae rhanddeiliaid yn hanfodol i waith a phecynnau gwaith WISERD a chaiff timau ymchwil eu hannog i ddatblygu eu cysylltiadau presennol ag amrywiaeth eang o rhanddeiliaid o bob rhan o gymdeithas sifil - yn ogystal â'r sector cyhoeddus a phreifat. Mae WISERD yn meithrin ymgysylltiad drwy gyfarfodydd wedi'u trefnu gyda rhanddeiliaid allweddol, fel Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Yn ogystal, mae'r ddau rwydwaith ymchwil dan nawdd WISERD ar laith, Diwylliant a Hunaniaeth - yn ogystal â'r Grŵp Defnyddwyr Ymchwil a'r Bwrdd Ymgynghori yn cynnig cysylltiadau pellach â rhanddeiliaid.

#### 4.4 Ymgysylltu â'r Gymuned Academaidd Ehangach

Partneriaeth o Sefydliadau Addysg Uwch ledled Cymru a'r tu hwnt yw WISERD. Gall cydweithwyr chwarae rôl weithgar yn hyrwyddo gwaith WISERD ar draws ysgolion/adrannau o fewn eu sefydliad 'cartref' – yn ogystal â datblygu cysylltiadau, rhannu gwybodaeth, a chydweithredu â'r gymuned academaidd ehangach. Byddwn yn cyflawni hynny drwy ymgysylltu'n barhaus mewn cynadleddau, seminarau, rhwydweithiau ymchwil a gweithgору arbenigol. Mae gwefannau ymchwil rhwydweithio academaidd fel [www.researchgate.com](http://www.researchgate.com) a [www.academia.edu](http://www.academia.edu) yn ffyrdd eraill o ymgysylltu.

Mae dimensiwn rhyngwladol ymgysylltu academaidd yn rhan annatod o'n gwaith. Caiff ei gyflawni drwy gymryd rhan mewn cynadleddau dramor megis:

- Cymdeithas Ryngwladol Ymchwil y Trydydd Sector ISTR <http://www.istr.org/>
- Y Gymdeithas ar gyfer Ymchwil ar Sefydliadau Dielw a Gweithredu Gwirfoddol (ARNOVA) (cymdeithas genedlaethol a rhyngwladol wedi'i lleoli yn UDA sy'n cysylltu ysgolheigion, athrawon ac arweinwyr ymarfer sydd â diddordeb mewn ymchwil i sefydliadau dielw, gweithredu gwirfoddol, dyngarol a chymdeithas sifil). <http://www.arnova.org/?page=upcomingconferences>

---

<sup>9</sup> Kerkhof, M. (2006) Making a Difference: On the Constraints of Consensus building and the relevance of deliberation in stakeholder dialogues, *Policy Science* 39: 279-299

- Y Gymdeithas ar gyfer Ymchwil Economaidd Cymdeithasol a Dielw (ANSER) <http://www.anser-ares.ca/home/>

Ymgysylltir yn rhyngwladol hefyd drwy Gymrodoriaethau Ymweld Rhyngwladol – yn ogystal â thrwy gymryd rhan yng ngweithgareddau Rhwydweithiau Ymchwil Rhyngwladol ISTR (gweler 5.5 isod).

Ymgysylltir hefyd drwy gymryd rhan mewn cynadleddau academaidd blaenllaw yn y Deyrnas Gyfunol - gweler Atodiad A am restr o gynadleddau sy'n lledaenu gwaith WISERD.

#### 4.5 Marchnata, Cyhoeddusrwydd ac Ymgysylltu'n Rhithwir/ar y we

Mae hyn yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu'n llwyddiannus. Bydd staff digwyddiadau a chyfathrebu yng nghanolfan WISERD yn gallu helpu timau ymchwil mewn digwyddiadau cynllunio. Rhowch gymaint o rybudd â phosibl i staff y ganolfan wrth ofyn am gymorth ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu. Ymysg y pwyntiau eraill i'w hystyried mae:

- P'un a ydych yn defnyddio grwpiau neu rwydweithiau sydd eisoes yn bodoli er mwyn marchnata eich digwyddiad eich hunan (yma, er enghraifft, gall cydweithwyr ddefnyddio rhwydweithiau cefnogi WISERD – y Grŵp Ymchwil Tai – a'r Rhwydwaith Ymchwil Iaith, Diwylliant a Hunaniaeth – yn ogystal â'r Rhwydwaith Astudiaethau Sector Gwirfoddol - VSSN).
- Fel y nodwyd, caniatewch ddigon o amser i gyflawni gweithgareddau hyrwyddo.
- Ystyriwch pa ddeunyddiau fydd eu hangen arnoch i hyrwyddo eich digwyddiad (e.e. taflenni, gwahoddiadau, trydar, cyhoeddusrwydd dros e-bost, poster/hysbysebu ac ati)
- Sicrhewch fod gwaith marchnata yn cydymffurfio â'r polisi iaith Gymraeg
- Gnewch yn siŵr bod y deunyddiau yn cynnwys logos/cynlluniau dylunio priodol WISERD – a, lle bo'n bosibl, eu bod yn cydnabod cyrff ariannu a sefydliadau partner.

Mae ffyrdd rhithwir/ar y we o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ffordd effeithiol hefyd o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ein gwaith ymchwil. Mae ffyrdd amrywiol y gellir gwneud hyn gan gynnwys:

- Gweminarau
- Podlediadau
- Ffrydiau fideo o ddigwyddiadau bwrdd crwn, seminarau ac ati
- Byrddau bwletin a thrafodaethau ymchwil ar-lein
- blogiau a ffrwd Twitter
- Cyhoeddiadau y gellir eu lawrlwytho (e.e. *Newyddion WISERD*, papurau gwaith ac adroddiadau ymchwil).

I gael rhagor o wybodaeth gweler:

- <http://www.communityplanningtoolkit.org/sites/default/files/Engagement.pdf>
- <http://www2.warwick.ac.uk/fac/soc/sociology/staff/academicstaff/jensen/ericjensen/pero/frametwork.pdf>

- [http://www2.warwick.ac.uk/fac/soc/sociology/staff/academicstaff/jensen/ericjensen/pero/pe\\_ro\\_working\\_paper\\_-\\_theorising\\_online\\_public\\_engagement\\_with\\_research\\_impacts\\_final\\_handover.pdf](http://www2.warwick.ac.uk/fac/soc/sociology/staff/academicstaff/jensen/ericjensen/pero/pe_ro_working_paper_-_theorising_online_public_engagement_with_research_impacts_final_handover.pdf)
- [http://www2.warwick.ac.uk/fac/soc/sociology/staff/academicstaff/jensen/ericjensen/pero/jisc\\_pero\\_final\\_case\\_study\\_final\\_handover.pdf](http://www2.warwick.ac.uk/fac/soc/sociology/staff/academicstaff/jensen/ericjensen/pero/jisc_pero_final_case_study_final_handover.pdf)

#### 4.6 Ymgysylltu: Materion a heriau

Mae angen i ymchwilwyr ddefnyddio eu barn eu hunain a bod yn effro i amrywiaeth o faterion a heriau yn ymwneud ag ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â phosibilrwydd o gael eich tynnu i agendâu sefydliadau sy'n cymryd rhan; cynnal annibyniaeth/meddwl beirniadol ymchwilwyr; 'pwysau' ar dimau ymchwil gan geidwaid pyrth/rheolaeth wleidyddol ar fynediad; cyfranogwyr yn dal gwybodaeth yn ôl; a'r angen i dimau ymchwil sicrhau'r cydbwysedd mwyaf priodol rhwng agweddau eraill ar ymchwil ac ymgysylltu. Mae enghreifftiau o'r deunydd darllen academiaidd ar heriau ymgysylltu i ymchwilwyr wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

### 5.0 ARFER EFFEITHIOL

#### 5.1 'Perchnogaeth'

Mae pob aelod o staff/ymchwilydd yn WISERD yn 'berchen' ar waith ymgysylltu, neu'n gyfrifol amdano. Mae llwyddiant y Sefydliad yn dibynnu ar bawb i gymryd rhan weithgar mewn mathau gwahanol o weithgareddau ymgysylltu (a, lle bo'n briodol, Dangosyddion Perfformiad Allweddol ymgysylltu cyflawni prosiectau/pecynnau gwaith yn briodol ac yn amserol fel y cytunwyd). Darperir cyfeiriad strategol gan Weithrediaeth WISERD gyda chymorth y Rheolwr Ymchwil a'r Swyddog Ymgysylltu. Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i ymgysylltu ymhellach.

#### 5.2 Sicrhau bod Ymgysylltu Ymchwil yn Broses Ddwyffordd

Mae'n hanfodol bod ymgysylltu yn broses ddwyffordd – gyda chyfnewid gwybodaeth ac addasu gweithredoedd o ganlyniad i ryngweithio rhwng ymchwilwyr ac eraill. Yn ogystal, mae'n bwysig ymgysylltu â defnyddwyr ymchwil a'r rhai rydych yn gobeithio dylanwadu arnynt ym mhob cam o'r broses ymchwil. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu cyn cyflwyno cynigion grant, yn ystod y prosiect ac wrth fyfyrion a gwerthuso ar ôl y prosiect. Hynny yw, mae ymgysylltu yn effeithiol yn pontio prosiectau ar y cyd a/neu brosiectau olynol. I raddau helaeth, mae'n ymwneud â'r canlynol:

- cyfathrebu a sgwrsio effeithiol;
- gwrandao a chyfnewid gwybodaeth a syniadau;
- cynnig awgrymiadau i'r gwaith o weithredu a gwerthuso prosiectau.

Mae'r pwynt olaf yn ymwneud â myfyrio'n feirniadol – penderfynu a yw adborth yn helpu i gyflawni eich nodau ymchwil a sut mae'n gwneud hynny (ac a yw'n ymarferol o fewn yr adnoddau/amser sydd ar gael) – a, lle bo'n briodol, newid/addasu eich gweithgareddau ymchwil yn barhaus.

Mae ymgynghori yn rhan allweddol o'r broses hon. Hynny yw, gofyn am farn a mewnbwn eich cynulleidfaoedd targed/y rhai yr effeithir arnynt gan eich gwaith/'y cyhoedd'. Mae 'ymgyngoriadau' yn eang o ran natur a gallant gynnwys amrywiaeth o weithgareddau. Fel y nodwyd, mae ymgynghori yng nghyfnod cynllunio'r prosiect yn werthfawr iawn. Er enghraifft, ymgynghori â phobl am y materion allweddol yn eu barn nhw, a pha gamau y gellid eu cymryd i gyflawni darn ymchwil â mwy o ffocws. Dyma rai cyngorion ar sut i hwyluso hyn:

- *Dechreuwch yn gynnar*: Unwaith y byddwch wedi canfod pwy yw'ch rhanddeiliaid, dechreuwch gysylltu â phobl berthnasol wrth ddechrau cynllunio eich prosiect;
- Fel man cychwyn, *adeiladwch ar rwydweithiau a chysylltiadau sydd eisoes wedi sefydlu* – yna ehangwch a datblygwch eich rhwydweithiau wrth i chi fwrw ymlaen. Gall 'proses caseg eira' helpu yma – gofynnwch i rhanddeiliaid ac eraill am awgrymiadau ynghylch pwy i'w cynnwys.
- *Cadwch bethau'n syml*: wrth gysylltu â phobl i ymgynghori/ymgysylltu, gall mesurau synnwyr cyffredin helpu – er enghraifft: cadw negeseuon e-bost yn fyr, rhoi trosolwg clir a chryno o'ch gwaith a beth rydych am ei gael gan y rhai rydych yn ceisio ymgysylltu â nhw;
- *Cymhellion*: er enghraifft: cysylltwch eich ymgynghoriad â digwyddiad sydd eisoes yn bodoli y mae pobl yn awyddus i fynd iddo – byddwch yn glir am y manteision iddynt hwy hefyd – sut y gall rhanddeiliaid ac eraill gael budd o gymryd rhan yn eich gwaith ymchwil;
- *Gwnewch bethau'n haws* i bartneriaid allanol ymgysylltu (e.e. mesurau synnwyr cyffredin – fel amser a lleoliad cyfarfodydd, pa mor hygyrch yw gwybodaeth, pa mor eglur yw cyfathrebu ac ati);
- *Lliniarwch ofnau/amheuson* - lle bo'n briodol, gallwch dawelu meddyliau darpar rhanddeiliaid/cyfranogwyr drwy ategu sut y bydd eich ymchwil yn cynnal arfer moesegol/cyfrinachedd ac yn cadw pobl yn ddienw.

Fel y nodwyd, dylid pwysleisio mai dim ond un rhan o'r broses ehangach yw ymgysylltu â rhanddeiliaid - a bod cyd-gynhyrchu gwybodaeth hefyd yn deillio o ymgysylltu â'r cyhoedd a chynulleidfaoedd 'lleyg'.<sup>10</sup>

### 5.3 Effaith

Mae 'effaith' yn hanfodol ar gyfer gwaith ymchwil WISERD, ac yn fater sy'n cyd-fynd ag Egwyddor 1 yr Egwyddorion Cenedlaethol. 'Mae ymgysylltu, i bob pwrpas, wedi'i gynllunio i wneud gwahaniaeth'. Mae Cyngorau Ymchwil y Deyrnas Gyfunol<sup>11</sup> yn diffinio 'effaith' fel a ganlyn:

- Effaith academaidd – y cyfraniad amlwg y mae gwaith ymchwil rhagorol yn ei wneud i gynnydd academaidd, ar draws ac o fewn disgyblaethau, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn dealltwriaeth, dulliau, damcaniaeth a chymhwyso;
- Effeithiau economaidd a chymdeithasol – y cyfraniad amlwg y mae ymchwil rhagorol yn ei wneud i gymdeithas a'r economi. Mae effeithiau economaidd a chymdeithasol yn ymgorffori'r holl ffyrdd amrywiol y mae gwybodaeth a sgiliau sy'n gysylltiedig ag ymchwil o fudd i unigolion, sefydliadau a chenhedloedd o ran:

---

<sup>10</sup> Mae'r pwyntiau blaenorol ac eraill yn berthnasol i faterion a gwmpesir yn nhestun Sherry Arnstein – sy'n parhau i fod yn adnodd cyfeirio defnyddiol: Arnstein, S. (1969) "A Ladder of Citizen Participation," *Journal of the American Planning Association*, Cyfrol 35, Rhif 4, Gorffennaf 1969, tt. 216-224.

<sup>11</sup> <http://www.rcuk.ac.uk/innovation/impacts/>



- meithrin perfformiad economaidd byd-eang, ac yn benodol cystadleurwydd economaidd y Deyrnas Gyfunol;
- cynyddu effeithiolrwydd polisi a gwasanaethau cyhoeddus,
- gwella ansawdd bywyd, iechyd ac allbwn creadigol.

Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn nodi tri phrif fath o effaith:

- Cyfryngol: dylanwadu ar ddatblygiad polisi, arfer neu ddarparu gwasanaeth, siapio deddfwriaeth, newid ymddygiad
- Cysyniadol: cyfrannu at ddealltwriaeth o faterion polisi, ail-fframio trafodaethau
- Meithrin capasiti: drwy ddatblygu sgiliau technegol a phersonol.

Adnoddau defnyddiol

- <http://www.esrc.ac.uk/funding-and-guidance/impact-toolkit/>
- <http://www.rcuk.ac.uk/innovation/impacts/>

#### 5.4 Monitro ymgysylltiad

I hyrwyddo Egwyddorion 4 a 10<sup>12</sup> yr Egwyddorion Cymdeithasol, tuag at ddiwedd rhaglen Cymdeithas Sifil WISERD (Medi 2019) bydd gwaith monitro parhaus o'r ffordd mae pecynnau gwaith yn cyflawni dangosyddion perfformiad allweddol ymgysylltu fel rhan o broses adolygu haf flynyddol Cymdeithas Sifil WISERD. Bydd hyn cael ei oruchwylio gan brif ymchwilwyr ac arweinwyr thema i ddechrau. Bydd y cynnydd yn cael ei grynhoi mewn adroddiadau blynyddol mewnol. Bydd y Weithrediaeth yn arolygu. O ystyried y ddbyniaeth ar ganfyddiadau ymchwil, nodwyd y bydd amseru rhai mathau o weithgareddau ymgysylltu yn cael eu gwyrto i flynyddoedd 3, 4 a 5. Mae hyn yn adlewyrchu dyddiadau cychwyn fesul cam y rhaglenni gwaith yn rhaglen Cymdeithas Sifil WISERD. Gellir dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses ymgysylltu mewn amryw o ffyrdd - o fewn pecynnau gwaith, drwy'r Grŵp Defnyddwyr Ymchwil ac mewn Cyfarfodydd Thema (ar gyfer Rhaglen Cymdeithas Sifil WISERD) a diwrnodau cwrdd i ffwrdd.

#### 5.5 Researchfish ©<sup>13</sup>

Bydd gweithgareddau ymgysylltu yn cael eu cofnodi yn [www.researchfish.com](http://www.researchfish.com) – y gronfa ddata a fabwysiadwyd gan RCUK. Dylai sawl un o brosiectau WISERD (gan gynnwys pecynnau gwaith Cymdeithas Sifil WISERD) geisio cadw cofnod diweddar o'u gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r canllaw mewnbyn presennol ar Researchfish yn nodi:

<sup>12</sup> Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol; Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses ymgysylltu

<sup>13</sup> DS: mae'r gronfa ddata hon yn ei dyddiau cynnar. Gall canllawiau ar-lein a gweithdrefnau gosod newid dros amser – ewch i <https://www.researchfish.com> i gadw golwg

*‘Gallwch gofnodi unrhyw fanylion am weithgareddau lle rydych wedi ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn yr adran hon. Nodwch fod sefydliadau ariannu wedi darparu’r canllawiau canlynol ar gyfer allbynnau rydych yn eu priodoli i grantiau/dyfarniadau:*

*Dywedwch wrthym am y canlynol:*

- *Gweithgareddau a gefnogir neu a wneir gennych chi neu aelod o’ch grŵp/tîm ymchwil*
- *Gweithgareddau sy’n ymwneud yn benodol ag ariannu o grant a restrir o dan “fy nyfarniadau”*
- *Gweithgareddau rheolaidd (ond dim ond unwaith y dylech eu nodi)*

*Ni ddylech ddweud wrthym am y canlynol:*

- *Gweithgareddau a oedd yn seiliedig ar wyddoniaeth neu ymchwil yn gyffredinol*
- *Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud yn benodol â’r arian ymchwil rydych yn adrodd yn ei erbyn*

Fel y nodwyd, mae ‘Ymgysylltu Polisi’ yn ddimensiwn penodol i ‘ymgysylltu’. Yma mae Researchfish yn rhoi’r canllaw canlynol ar gyfer cynnwys cofnod o’ch gwaith ymgysylltu sy’n ymwneud â pholisi:

*‘Gallwch gofnodi manylion am eich dylanwad ar bolisi yn yr adran hon. Nodwch fod sefydliadau ariannu wedi darparu’r canllaw canlynol ar gyfer allbynnau rydych wedi eu priodoli i grantiau/dyfarniadau. Yn yr adran hon, byddai’ch arianwyr yn hoffi cael manylion unrhyw effaith sylweddol ar bolisi neu arfer sydd wedi’u gwireddu o ganlyniad i’ch gwaith ymchwil. Gellir hefyd nodi ymchwil sydd wedi effeithio ar feysydd polisi sy’n effeithio ar iechyd, cymdeithas a’r economi, fel tai, trafnidiaeth ac ysgolion.*

*Dywedwch wrthym am y canlynol:*

- *Polisi/arfer y dylanwadir arno yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol neu’n rhyngwladol - Dylanwad ar bob polisi neu faes sy’n effeithio ar gymdeithas a’r economi*
- *Dylanwadau ar adolygiadau systematig, canllawiau a dogfennau polisi (e.e. siapiaio argymhellion)*
- *Datblygiadau hyfforddiant/addysgol (gan gynnwys cyrsiau a deunyddiau cyrsiau)*
- *Aelodaeth o bwyllgorau ymgynghori a/neu adolygiadau llywodraeth a chymryd rhan ynddynt*

*Ni ddylech ddweud wrthym am y canlynol:*

- *Datblygiadau hyfforddiant ar gyfer cyrsiau israddedig*

Mae gweminarau yn rhoi trosolwg o Researchfish ar gael yn <https://www.researchfish.com/contact/webinar/pis>

## **5.6 Rhwydweithiau Ymchwil**

Mae Cymdeithas Sifil WISERD yn ymrwymedig i'r gwaith o gefnogi rhwydweithiau ymchwil mewn meysydd sy’n berthnasol i gymdeithas sifil. Mae’r rhain yn werthfawr iawn wrth gyflawni nodau ymgysylltu’r Sefydliad, gan eu bod yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid yn ogystal ag aelodau academiaidd. Mae dau rwydwaith wedi’u sefydlu hyd yma: Iaith, Dinasyddiaeth a Hunaniaeth (dan

arweiniad yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth) - a Thai (dan arweiniad yr Athro Peter Mackie, Prifysgol Caerdydd).

Yn ogystal, anogir cydweithwyr sy'n gweithio ar raglen Cymdeithas Sifil i ymgysylltu â dau rwydwaith allanol sy'n bodoli eisoes. Y Rhwydwaith Astudiaethau Sector Gwirfoddol (wedi'i lleoli yn y Deyrnas Gyfunol) <http://www.vssn.org.uk/> a Rhwydweithiau Rhyngwladol y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Ymchwil y Trydydd Sector (ISTR) <http://www.istr.org/> (mae'r rhain wedi'u rhannu ar draws pum rhanbarth ledled y byd: Ewrop, Asia, Affrica, America Ladin a'r Dwyrain Canol). Mae'r ddau yn ymwneud â rhannu gwybodaeth a hyrwyddo cydweithio ymchwil. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid academiaidd a phartneriaid eraill ac yn cynrychioli cyfleoedd helaeth ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chydweithio.

### 5.7 Grŵp Defnyddwyr Ymchwil

Grŵp o ddefnyddwyr ymchwil a ddaw o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yw'r Grŵp Defnyddwyr Ymchwil. Bydd Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith ymchwil WISERD drwy gylchlythyrau/diweddariadau dros e-bost. Bydd cyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer y Grŵp. Ei ddiben yw:

- Rhoi cyngor ac adborth ar ddylunio ymchwil
- Darllen a rhoi adborth ar ddeunyddiau ymchwil (e.e. holiaduron, amserlenni cyfweld ac ati)
- Rhoi sylwadau ar gynigion ymchwil
- Aelodaeth o bwyllgorau llywio prosiect
- Cydymgeiswyr posibl ar gyflwyniadau grant

## 6.0 CYDNABYDDIAETH

Mae WISERD yn ddiolchgar am adborth Dr Bryan Collis, Uwch Swyddog Polisi, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wrth adolygu drafft cynharach o'r Strategaeth hon.

## 7.0 GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn darparu amrywiaeth o adnoddau defnyddiol, gan gynnwys:

<http://www.esrc.ac.uk/funding-and-guidance/impact-toolkit/what-how-and-why/public-engagement/important.aspx>

Y Ganolfan Gyflynu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd

<http://www.publicengagement.ac.uk/>

Ymgysylltu â'r Cyhoedd o ran Ymchwil RCUK

<http://www.rcuk.ac.uk/pe/>

Llawlyfr Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

[http://www.oecd.org/document/20/0,3343,en\\_2649\\_33735\\_40755604\\_1\\_1\\_1\\_1,00.html](http://www.oecd.org/document/20/0,3343,en_2649_33735_40755604_1_1_1_1,00.html)

Y Cyngor Prydeinig – Ymgysylltu â'r Cyhoedd

<http://www.britishcouncil.org/science-talking-science-public-engagement.htm>

Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol/ Academi Gwyddorau Cymdeithasol

[http://www.esrc.ac.uk/images/Developing\\_Dialogue\\_tcm8-4628.pdf](http://www.esrc.ac.uk/images/Developing_Dialogue_tcm8-4628.pdf)

Fforwm Ymchwil Trydydd Sector yr Alban

<http://www.evaluationsupportscotland.org.uk/our-work-partners/scottish-third-sector-research-forum/about-scottish-third-sector-research-forum/>

[www.publicengagement.ac.uk/explore-it/what-are-policy-drivers/concordat-engaging-public-with-research](http://www.publicengagement.ac.uk/explore-it/what-are-policy-drivers/concordat-engaging-public-with-research)

- Trafodaeth ar werth economaidd ymgysylltu â'r cyhoedd:

[www.britishecienceassociation.org/people-science-magazine/june-2012/economic-case-publicengagement](http://www.britishecienceassociation.org/people-science-magazine/june-2012/economic-case-publicengagement)

- Adroddiad ar werth cymdeithasol prifysgolion:

[www.publicengagement.ac.uk/sites/default/files/publication/80096\\_nccpe\\_social\\_value\\_report.pdf](http://www.publicengagement.ac.uk/sites/default/files/publication/80096_nccpe_social_value_report.pdf)

- Cynllunio ar gyfer Newid - Canllaw ar Ymwreiddio Gwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd:

[www.publicengagement.ac.uk/support-it/planning-change](http://www.publicengagement.ac.uk/support-it/planning-change)

## ATODIAD A – Geirfa – Mathau o Weithgareddau Ymgysylltu

Sioeau Teithiol Cymdeithas Sifil WISERD: Bydd y sioeau teithiol yn hwyluso'r gwaith o ledaenu a chyfleu rhaglen ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD yn eang. Y bwriad yw y bydd digwyddiadau yn cael eu defnyddio fel ffordd o gysylltu â chanolfannau cytras a sefydliadau'r trydydd sector.

Sioeau Teithiol y Porth Data: Bydd y Porth Data yn cael ei ddefnyddio fel offeryn lledaenu gwybodaeth yn rhaglen Cymdeithas Sifil WISERD. Bydd y porth yn coladu ac yn lledaenu gwybodaeth ac allbwn ymchwil sy'n berthnasol i gymdeithas sifil, a hynny mewn fformat hygyrch. Y nod yw creu cronfa ddata o waith ymchwil cymdeithas sifil. Defnyddir y sioeau teithiol i hyrwyddo defnydd o'r porth data a darparu hyfforddiant ar sut y gellir cael mynediad iddo a'i ddefnyddio.

Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd: Caiff y digwyddiadau hyn eu cynllunio i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o raglen ymchwil y Ganolfan ac yn ymwneud â nhw. Cynhelir digwyddiadau yn y gymuned leol a bydd yn dangos ymchwil drwy amrywiaeth o gyflwyniadau, cyfryngau gweledol a rhithwir.

Symposia Tystiolaeth: Ffordd o ymgysylltu â chydweithwyr polisi ac yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector o ran rhaglen ymchwil y Ganolfan. Gallai'r rhain gynnwys adroddiadau ar dystiolaeth/damcaniaeth/trafodaethau polisi a amlinellir mewn digwyddiad symposiwm mewn cyflwyniad gan awdur(on) adroddiad gydag ymateb gan y rhanddeiliaid a thrafodaethau sy'n eu cynnwys.

Cynadleddau Bach: Digwyddiad un diwrnod fel arfer yw'r cynadleddau hyn sy'n dwyn ynghyd ymchwilwyr o'r ganolfan ac academyddion yn yr un maes, ymchwilwyr ac ymarferwyr polisi yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector

Cyfres o Seminarau Cymdeithas Sifil WISERD: Cyfresi seminar blynyddol, gyda'r nod o hyrwyddo ymgysylltu â gwaith ymchwil a wnaed yn y ganolfan gan ymchwilwyr academiaidd sydd â diddordeb yng ngwaith y Ganolfan.

Gweithdai a Digwyddiadau Diwedd Prosiect: Bydd y Ganolfan yn cynnal cyfres o weithdai a digwyddiadau diwedd prosiect i ledaenu canfyddiadau prosiectau ymchwil i'r gymuned academiaidd.

Cynhadledd Genedlaethol Flynyddol: Cynhadledd ddeuddydd i ymchwilwyr o bob sector a bydd yn cynnwys papurau gan gydweithwyr academiaidd a rhai nad ydynt yn academiaidd.

Cyfarfodydd Ymgysylltu Polisi a Rhanddeiliaid: Bydd cylch gwaith cyfarfodydd o'r fath yn amrywio (ymhlith pethau eraill: creu a chryfhau cysylltiadau rhwng y sector academiaidd, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector; archwilio posibilrwydd ar gyfer ymchwil ar y cyd; a hwyluso ymgysylltiad â chanfyddiadau ymchwil).

Seminarau Cyfnewid Gwybodaeth: Seminarau yn ymateb i fuddiannau rhanddeiliaid/ arbenigwyr polisi.

Rhwydweithiau Grŵp Thematig: Mae Cymdeithas Sifil WISERD yn cefnogi gweithgareddau'r Rhwydwaith Iaith, Dinasyddiaeth a Hunaniaeth a'r Rhwydwaith Tai. Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o'r byd academiaidd, y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector polisi a'r trydydd sector. Mae cyfarfodydd rhwydwaith yn trafod gwaith ymchwil presennol ac yn y dyfodol, yn archwilio'r posibilrwydd ar gyfer cydweithio a chyd-gynhyrchu ymchwil yn y dyfodol ac yn trafod arian i ddatblygu ymchwil.

## ATODIAD B - YMGYSYLLTU ACADEMAIDD - CYNADLEDDAU

Dyma restr (nad yw'n gynhwysfawr) o gynadleddau sy'n addas ar gyfer lledaenu gwaith ymchwil WISERD:

- NCVO/VSSN <https://www.ncvo.org.uk/training-and-events/research-conference>
- Cynhadledd Flynyddol Polisi a Gwleidyddiaeth <http://www.bris.ac.uk/sps/policypolitcs/policyandpolitics2015/>
- Cymdeithas Astudiaethau Rhanbarthol <http://www.regionalstudies.org/conferences>
- Cymdeithas Polisi Cymdeithasol <http://www.social-policy.org.uk/what-we-do/conference/>
- BERA <https://www.bera.ac.uk/beraconference-2015>
- ECER 2015 <http://www.eera-ecer.de/ecer-2015-budapest/>
- Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Gerontoleg Prydain <http://www.britishgerontology.org/>
- Grŵp Astudiaeth Gwaith, Pensiynau ac Economi Llafur (WPEG) <http://www.sheffield.ac.uk/economics/events/wpeg/conference>
- RGS <http://www.rgs.org/WhatsOn/ConferencesAndSeminars/Annual+International+Conference/Cofference+theme.htm>
- Cymdeithas Daearyddwyr America <http://www.aag.org/annualmeeting>
- Y Gymdeithas Economeg Frenhinol <http://www.res.org.uk/view/conference.html>
- Y Sefydliad ar gyfer Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd <https://www.iser.essex.ac.uk/>
- Cymdeithas Gerontoleg America <https://www.geron.org/>
- BSA <http://www.britsoc.co.uk/events/bsa-annual-conference.aspx>
- Cymdeithas Astudiaethau Gwleidyddol PSA <https://www.psa.ac.uk/conference/conference-highlights-2015>
- Cymdeithas Astudiaethau Gwleidyddiaeth Rhyngwladol IPSA <https://www.ipsa.org/world-congress-istanbul-2016>
- Consortiwm Ewropeaidd ECPR ar gyfer Ymchwil Gwleidyddol <http://www.ecpr.eu/>
- Cymdeithaseg Cyngres y Byd ISA <http://www.isa-sociology.org/congress2014/>
- Cyfraith a Chymdeithas <http://www.lawandsociety.org/Seattle2015/seattle2015.html>
- Y Cyngor Astudiaethau Ewropeaidd <http://councilforeuropeanstudies.org/conferences/2015-ces-conference>
- Y Gynhadledd Ewropeaidd ar Wleidyddiaeth a Rhyw <http://www.ecpg.eu/research-methods-for-gender-and-politics.html>
- NCRM <http://www.ncrm.ac.uk/news/show.php?article=5403>
- SRA <http://the-sra.org.uk/events/>
- Cymdeithas Ymchwil Addysgol America (AERA) <http://www.aera.net/tabid/10208/Default.aspx>
- Cymdeithas Gwyddor Wleidyddol America <http://www.apsanet.org/>

## ATODIAD C – Deunydd Darllen ar Faterion a Heriau yn ymwneud ag ‘ymgysylltu’

Broadhead, R. S. (1976) Gatekeepers and the Social Control of Social Research, Social Problems cyfrol:23 rhifyn 3 tt. 325 -336;

Jongbloed, B., Enders, J. a Salerno, C. (2008) Higher education and its communities: Interconnections, interdependencies and a research agenda, Higher Education, 56, tt. 303–324;

Murdock, A. Shariff, R. Wilding, K. (2013) Knowledge exchange between academia and the third sector, Evidence & Policy: A Journal, Cyfrol 9, Rhif 3, Awst 2013, tt. 419-430

Perkman, M. et al (2013) Academic engagement and commercialisation: A review of the literature on university–industry relations, Research Policy, Cyfrol 42, Rhifyn 2, Tudalennau 423–442

Wanat, C. (2008) Getting Past the Gatekeepers: Differences Between Access and Cooperation in Public School Research, Field Methods, Cyfrol. 29, Rhif. 3, 45-64, DOI: 10.1177/1525822X07313811;



Wales Institute of Social & Economic Research, Data & Methods  
Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru